14–16 oed

# Geirfa hygyrch ar gyfer termau allweddol: y model atomig

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/4tzFoze, nodiadau i athrawon ar gael.

# Cynnwys

**I gael gwybod sut mae defnyddio'r adnoddau hyn, ac i gael awgrymiadau metawybyddol, syniadau ar gyfer cefnogi a herio, ac adnoddau cysylltiedig, ewch i: rsc.li/3XTkheu**

## Adeiledd atomig


Niwclews (atomig)............................4

Rhif atomig........................................5

Cyfansoddyn......................................6

Electron.............................................7

Ffurfwedd/adeiledd electronau..........8

Plisgyn electronau/lefel egni...............9

Elfen..................................................10

Isotopau............................................11

Rhif màs............................................12

Moleciwl............................................13

Niwtron..............................................14

Proton.................................................15

Màs atomig cymharol..........................16

Gwefr gymharol...................................17

Màs cymharol......................................18

Gronyn is-atomig.................................19


## Atomau ac ïonau


Atom...................................................20

Ïon......................................................21

# Cynnwys

## Diagramau gronynnau

Anelastig……………………………………………...22

Grymoedd rhyngfoleciwlaidd………………23

Egni cinetig……………………………..........24

Gwres cudd…………………………………..25

Model……………………………………......26

Dellten reolaidd……………………………...27


# Niwclews (atomig)

canol yr atom, sydd â gwefr bositif ac sy'n cynnwys protonau a niwtronau

**Mewn geiriau eraill…**
canol atom, sy'n cynnwys protonau a niwtronau

**Enghraifft**
Mae niwclews nitrogen yn cynnwys 7 proton a 7 niwtron. Bydd y niwclews atomig bob amser yn cael ei ddangos yng nghanol unrhyw atomau mewn diagramau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
bit.ly/3RfRpJL




**Peidio â drysu â…**
cnewyllyn cell mewn bioleg. Mae cnewyllyn cell yn sylweddol fwy na niwclews atomig

**Dweud**
Niw-cle-ws

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio sut mae'r niwclews atomig yn newid yn ystod ymasiad niwclear ac ymholltiad niwclear


# Y rhif atomig

nifer y protonau yn niwclews atom o elfen benodol

**Mewn geiriau eraill…**
sawl proton sydd gan atom elfen

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/4ieBlxm](bit.ly/4ieBlxm)

**Dweud**
Rhif at-om-ig




**Geiriau tebyg**
Rhif proton


**Enghraifft**
Rhif atomig carbon yw chwech oherwydd bod gan atom carbon chwe phroton yn y niwclews

**Peidio â drysu â…**
nifer yr electronau.
Bydd nifer yr electronau ond yn hafal i'r rhif atomig ar gyfer atomau niwtral. Bydd gan ïonau nifer gwahanol o electronau

# Cyfansoddyn

sylwedd pur wedi'i wneud o ddwy neu ragor o elfennau gwahanol y mae bondiau cemegol yn cysylltu eu hatomau; mae'r atomau mewn cymhareb sefydlog


**Mewn geiriau eraill…**
dwy neu ragor o elfennau gwahanol wedi'u bondio'n gemegol




**Enghraifft**
Mae dŵr a sodiwm clorid yn gyfansoddion cyffredin

**Peidio â drysu â…**
cymysgedd. Ni fydd yr holl atomau mewn cymysgedd wedi'u bondio at ei gilydd yn gemegol

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/4jDLKJD](bit.ly/4jDLKJD)




**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio pwysigrwydd glwcos, carbon deuocsid a llawer o gyfansoddion eraill

**Dweud**
Cyf-an-sodd-yn


# Electron

gronyn is-atomig â gwefr negatif sydd ag ychydig iawn o fàs ac sydd i'w ganfod ym mhlisg electronau/lefelau egni atomau

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau is-atomig negatif a geir mewn atomau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
bit.ly/4lxieqC

**Dweud**
El-ec-tron




**Enghraifft**
Bydd atomau nitrogen yn cynnwys saith electron oherwydd mai rhif atomig nitrogen yw 7


**Peidio â drysu â…**
ïon. Mae electronau mewn atomau ac ïonau

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio electronau yng nghyd-destun cylchedau trydanol

# Ffurfwedd electronau (neu adeiledd)

dyma sy'n rhoi nifer yr electronau ym mhob plisgyn/lefel egni o amgylch niwclews atom

**Mewn geiriau eraill…**
sut mae'r electronau wedi'u trefnu o amgylch y niwclews




**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
[bit.ly/3Ep2TaW](bit.ly/3Ep2TaW)

**Dweud**
El-ec-tron
Ffurf-wedd

**Enghraifft**
Mae gan elfennau grŵp 18 (neu grŵp 0) ffurfwedd electronau sefydlog (plisgyn allanol llawn)


**Peidio â drysu â…**
rhif grŵp. Mae rhif y grŵp yn gallu nodi nifer yr electronau ar blisgyn allanol atom elfen. Mae'r ffurfwedd electronau lawn yn cynrychioli trefniant pob electron ar draws pob plisgyn

# Plisgyn electronau (neu lefel egni)

yr ardal o amgylch niwclews atom lle mae'r electronau i'w canfod; mae gan bob lefel uchafswm o electronau y mae'n gallu eu dal

**Mewn geiriau eraill…**
lle mae'r electronau i'w canfod mewn atom

**Dweud**
Plisg el-ec-tron-au




**Enghraifft**
Mae gan atom nitrogen ddau blisgyn electronau, felly mae wedi'i lleoli yn ail gyfnod y tabl cyfnodol

**Peidio â drysu â…**
electronau dadleoledig. Nid ydynt ym mhlisg electronau unrhyw atom penodol. Oni bai eu bod wedi'u dadleoli, mae electronau'n llenwi gofod mewn plisgyn electronau/lefel egni

# Elfen

sylwedd pur sydd wedi'i wneud o un math o atom yn unig

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4jAYL6M](bit.ly/4jAYL6M)

| O | Na | P |
|---|---|---|
| Ocsigen | Sodiwm | Ffosfforws |
| 8 16 | 11 23 | 15 31 |

**Enghraifft**
Mae ocsigen, sodiwm a ffosfforws yn sylweddau pur wedi'u gwneud o un math o atom yn unig, felly maent i'w gweld yn y tabl cyfnodol

**Dweud**
El-fen

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio sut mae ocsigen, carbon, nitrogen a nifer o elfennau eraill yn angenrheidiol ar gyfer bywyd


**Peidio â drysu â…**
atomau, sef y gronynnau unigol sy'n ffurfio elfen neu gyfansoddyn

# Isotopau

atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/44dm8in

**Dweud**
Is-o-top-au




**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio isotopau ymbelydrol gwahanol elfennau

**Enghraifft**
Mae Carbon-12 a Carbon-13 yn isotopau carbon oherwydd bod ganddynt yr un nifer o brotonau (6), ond mae ganddynt nifer gwahanol o niwtronau (6 o'i gymharu â 7)

**Peidio â drysu â…**
alotropau, sydd â'r un nifer o ronynnau is-atomig. Mae gan isotopau niferoedd gwahanol o niwtronau. Mae niwtronau'n niwtral, felly mae gan isotopau yr un wefr gyffredinol (niwtral)

# Y rhif màs

cyfanswm nifer y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom o elfen benodol

**Mewn geiriau eraill…**
cyfanswm nifer y protonau a niwtronau mewn atom

rhif màs

$$^{12}_{6}\mathrm{C}$$

**Enghraifft**
Mae atom carbon bob amser yn cynnwys 6 phroton a 6 niwtron yn ei niwclews atomig, felly mae gan atomau carbon rif màs o 6 + 6 = 12

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/3EonhJe](bit.ly/3EonhJe)

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn defnyddio rhif màs yn yr un ffordd ag y mae'n cael ei ddefnyddio mewn cemeg


**Peidio â drysu â…**
rhif atomig. Y rhif màs fydd y mwyaf o'r ddau werth ar gyfer unrhyw elfen yn y tabl cyfnodol

**Dweud**
Rhif màs


# Moleciwl

dau atom neu ragor wedi'u cysylltu gan fondiau cemegol


**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4lBjGbG





moleciwl carbon deuocsid




moleciwl hydrogen




moleciwl nitrogen




moleciwl dŵr

**Enghraifft**
Mae carbon deuocsid ($CO_2$), dŵr ($H_2O$) a'r holl gyfansoddion eraill yn foleciwlau

**Dweud**
Mol-e-ciwl

**Peidio â drysu â…**
elfennau a chyfansoddion. Mae moleciwl yn gallu bod yn elfen neu'n gyfansoddyn

**Geiriau tebyg**
Byddai hefyd modd disgrifio moleciwlau nwyon a hylifau fel gronynnau nwy a hylif

**Cyd-destunau eraill**
Mewn bioleg, byddwch yn astudio nifer o wahanol foleciwlau a geir mewn organebau byw, fel glwcos a charbon deuocsid


# Niwtron

gronyn is-atomig heb wefr sydd â màs cymharol o 1, ac sydd i'w ganfod mewn niwclews atom

**Mewn geiriau eraill…**
gronyn is-atomig niwtral yn y niwclews

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
[bit.ly/3Rm4fGI](https://bit.ly/3Rm4fGI)

**Dweud**
Niw-tron




**Enghraifft**
Mae modd cyfrifo nifer y niwtronau mewn niwclews atom drwy dynnu'r rhif atomig o'r rhif màs

**Peidio â drysu â…**
negatif. Does gan niwtronau ddim gwefr. Mae gan electronau wefr negatif

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn cyfrifo nifer y niwtronau mewn gwahanol isotopau yn yr un ffordd ag y mae hynny'n cael ei wneud mewn cemeg


# Proton

gronyn is-atomig â gwefr bositif a màs cymharol o 1, ac sydd i’w ganfod mewn niwclews atom

**Mewn geiriau eraill…**
gronyn is-atomig positif yn y niwclews

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/4cy6LTJ

**Dweud**
Pro-ton




**Enghraifft**
Rhif atomig nitrogen yw 7 oherwydd bydd atom nitrogen yn cynnwys 7 proton yn ei niwclews atomig

**Peidio â drysu â…**
ïon positif/catïon – mae gan y ddau wefr gymharol bositif

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio pwnc tebyg am adeiledd atomig

# Màs atomig cymharol ($A_r$)

màs cyfartalog atom o elfen, gan ystyried canrannau isotopau’r elfen sy’n digwydd yn naturiol

**Mewn geiriau eraill…**
màs cyfartalog un atom elfen

rhif màs

35.5
Cl
Clorin
17

**Enghraifft**
Màs atomig cymharol clorin mewn rhai tablau cyfnodol yw 35.5 oherwydd ei fod yn gyfartaledd o ddau isotop clorin: clorin-35 ($^{35}Cl$) a chlorin-37 ($^{37}Cl$)

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4cullG6](bit.ly/4cullG6)

**Dweud**
Màs at-o-mig cym-har-ol


**Geiriau tebyg**
Màs cymharol

**Peidio â drysu â…**
rhif màs. Mae màs atomig cymharol yn gyfartaledd felly mae’n gallu bod yn werth degol. Dim ond rhifau cyfan o brotonau a niwtronau y gall atom unigol eu cynnwys

# Gwefr gymharol

gwefr bositif (+) neu negatif (-) gronyn o'i chymharu â gwefr un proton

**Mewn geiriau eraill…**
pa mor bositif neu negatif yw gronyn




**Enghraifft**
Mae gan ïon sodiwm 11 proton positif yn y niwclews, ond dim ond 10 electron negatif, felly gwefr gymharol y gronyn yw +1

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/3Y1QK2i

**Peidio â drysu â…**
màs cymharol. Mae gwefr gymharol gronyn yn gallu bod yn bositif neu'n negatif, bydd màs cymharol bob amser yn werth positif


**Dweud**
Gwef-r gym-har-ol

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch hefyd yn dysgu am wefr gymharol protonau, niwtronau ac electronau

# Màs cymharol

màs gronyn o'i gymharu ag $^{1}/_{12}$ o fàs atom $^{12}C$

**Mewn geiriau eraill…**
faint yn drymach yw gronyn o'i gymharu ag un arall




**Enghraifft**
Bydd gan atom carbon fàs cymharol o 12 oherwydd ei fod 12 gwaith yn drymach nag atom hydrogen


**Dweud**
Màs cym-har-ol

**Peidio â drysu â…**
Gwefr gymharol – mae gwefr gymharol gronyn yn gallu bod yn bositif neu'n negatif, bydd màs cymharol bob amser yn werth positif

# Gronyn is-atomig

gronyn sy'n llai nag atom

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau bach sy'n ffurfio'r holl elfennau




**Dweud**
Gron-yn is-at-om-ig

**Dadansoddi**
Mae 'is-' yn golygu llai na

**Enghraifft**
Mae protonau, niwtronau ac electronau yn ronynnau is-atomig

**Peidio â drysu â…**
atomau. Gronynnau is-atomig sy'n ffurfio atomau. Maent i'w cael o fewn yr atom, nid y tu allan iddo


**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn dod ar draws yr un tri gronyn is-atomig rydym yn dysgu amdanynt mewn cemeg: protonau, niwtronau ac electronau

# Atom

y gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi'u gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
bit.ly/3G7XpSi

**Dweud**
A-tom



**Enghraifft**
Un atom unigol nitrogen yw'r math lleiaf o nitrogen sy'n gallu bodoli


**Peidio â drysu â…**
ïonau. Mae gan atomau nifer hafal o brotonau ac electronau. Mae atomau'n gallu ffurfio ïonau pan fyddant yn colli neu'n ennill electronau.

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn astudio pynciau tebyg am adeiledd atomig a gronynnau

# Ïon

gronyn wedi'i wefru sy'n cael ei ffurfio pan fydd un neu ragor o electronau'n cael eu colli neu eu hennill o atom neu foleciwl

**Mewn geiriau eraill…**
gronyn â gwefr positif neu negatif




**Enghraifft**
Pan fydd atom sodiwm yn colli electron, mae'n troi'n ïon â gwefr bositif

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/3Yv76R2

**Peidio â drysu â…**
protonau (positif) neu electronau (negatif)

**Dweud**
Ï-on


**Geiriau tebyg**
Mae catïonau yn ïonau â gwefr bositif, ac mae anionau yn ïonau â gwefr negatif

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, efallai y byddwch yn trafod ïonau wrth ddysgu am drydan

# Anelastig

ddim yn hyblyg

**Mewn geiriau eraill…**
ni fydd yn ymestyn nac yn plygu



**Enghraifft**
Mae caniau diodydd metel a photeli gwydr yn ddeunyddiau anelastig cyffredin

**Dweud**
An-el-as-tig

**Cyd-destunau eraill**
Mae gwrthrych anelastig yn newid siâp yn barhaol pan roddir grym arno. Mewn ffiseg, byddwch yn ymchwilio i briodweddau gwrthrychau elastig ac anelastig


**Dadansoddi**
Mae 'an' yn golygu ddim yn

# Grymoedd rhyngfoleciwlaidd

y grymoedd atynnol a gwrthyrrol cymharol wan rhwng moleciwlau

**Dweud**
Grym-oedd rhyng-fol-ec-iwl-aidd

**Dadansoddi**
Mae ‘rhyng’ yn golygu rhwng neu ymhlith




**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, efallai y byddwch yn trafod grymoedd rhyngfoleciwlaidd wrth ddysgu am y model gronynnau

**Enghraifft**
Mae moleciwlau dŵr mewn iâ yn cael eu dal at ei gilydd gan rymoedd atynnol rhwng y moleciwlau

**Peidio â drysu â…**
bondiau cemegol. Nid oes unrhyw fondiau cofalent yn cael eu torri pan fydd sylweddau sydd wedi’u gwneud o foleciwlau cofalent bach yn ymdoddi neu’n berwi – y grymoedd rhyngfoleciwlaidd sy’n cael eu goresgyn


# Egni cinetig

yr egni sydd gan wrthrych oherwydd ei fudiant

**Mewn geiriau eraill…**
y cyflymaf mae gronyn yn symud, y mwyaf o egni cinetig sydd ganddo

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/4jaZCev

**Dweud**
Eg-ni cin-et-ig



**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn cyfrifo gwerth ar gyfer storfeydd egni cinetig gwrthrychau sy'n symud


**Enghraifft**
Pan fydd sylwedd yn cael ei gynhesu, mae'r gronynnau'n ennill storfa egni cinetig fwy, felly byddant yn dirgrynu neu'n symud yn gyflymach

**Peidio â drysu â…**
symudiad rydych chi'n gallu ei weld yn amlwg. Ac mae gan ronynnau solid egni cinetig hefyd, nid dim ond hylifau a nwyon

# Gwres cudd

egni sy'n cael ei drosglwyddo i sylwedd neu ohono yn ystod newid yn ei gyflwr ffisegol sy'n digwydd heb newid ei dymheredd

**Mewn geiriau eraill…**
yr egni sydd ei angen i ymdoddi neu ferwi sylwedd, neu'r egni sy'n cael ei ryddhau pan fydd sylwedd yn cyddwyso neu'n rhewi




**Enghraifft**
Wrth i rew ymdoddi, bydd y tymheredd yn aros ar sero gradd nes bydd yr holl iâ solet wedi ymdoddi'n ddŵr hylifol

**Peidio â drysu â…**
newid mewn tymheredd, 'poethi' neu 'oeri'. Nid yw'r tymheredd yn newid pan fydd sylwedd yn newid cyflwr

**Dweud**
Gwres cudd


**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn cyfrifo gwres cudd ymdoddi ac anweddu ar gyfer gwahanol sylweddau


# Model


cynrychioliad syml o rywbeth neu ffordd o egluro rhywbeth cymhleth

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: 
bit.ly/4ihX9xx

**Dweud**
Mod-el








**Enghraifft**
Ym maes cemeg, mae atomau'n aml yn cael eu modelu fel cylchoedd neu sfferau, ac mae bondiau cemegol yn aml yn cael eu modelu fel llinellau syth rhwng atomau

**Cyd-destunau eraill**
Ar draws pob un o'r tri phwnc gwyddonol, bydd eich athro yn aml yn defnyddio modelau i helpu i egluro syniadau cymhleth a haniaethol


# Dellten reolaidd

trefniant o atomau neu ïonau ailadroddol sy'n ffurfio adeiledd 3D

**Mewn geiriau eraill…**
gronynnau wedi'u trefnu mewn adeiledd 3D sy'n ailadrodd



**Enghraifft**
Mae sodiwm clorid a diemwnt yn sylweddau y byddwch yn eu hastudio sydd ag adeiledd dellten reolaidd



**Dweud**
Dell-ten re-ol-aidd

**Peidio â drysu â…**
moleciwlau syml.

**Cyd-destunau eraill**
Mewn ffiseg, byddwch yn dysgu am drefniant gronynnau mewn solidau

# Diolchiadau

Llun ar sleid 22 © Shutterstock

Geirfâu Iaith Arwyddion Prydain o dermau'r cwricwlwm gan yr SSC (https://www.ssc.education.ed.ac.uk/BSL/)